**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

26 Ionawr 2021

Annwyl John,

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 21 Ionawr pan wnaethoch graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, cytunais i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i egluro sut y cafodd penderfyniadau ynghylch dyrannu'r gyllideb eu llywio gan ganfyddiadau Grŵp Cynghori BAME y Prif Weinidog, yn enwedig adroddiad yr Athro Ogbonna.

Nodwyd cyfres o argymhellion yn adroddiad yr Athro Ogbonna ar yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ar hyn o bryd rydym yn cydlunio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru a fydd yn cymryd yr argymhellion hyn i ystyriaeth. Mae'r Athro Ogbonna yn cydgadeirio Grŵp Llywio i oruchwylio'r gwaith hwn. Bydd y cynllun yn sylfaen i'r gwaith o sicrhau newid systemig a chynaliadwy yng Nghymru a chaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth ar gyfer ymgynghoriad.

Hefyd, cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd â'r Athro Ogbonna yn yr hydref i glywed am ganlyniadau ei waith.

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn cynnwys dyraniad penodol o £1.1 miliwn ar gyfer Cydraddoldeb a defnyddir rhywfaint o'r arian ychwanegol hwn i ddatblygu camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, i ddechrau mynd i'r afael ag effeithiau amrywiol y pandemig ar bobl yng Nghymru. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi cychwyn, er enghraifft archwilio rôl a swyddogaethau posibl Uned Gwahaniaethau ar sail Hil.

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 hefyd yn cynnwys dyraniadau eraill sy'n ceisio unioni anghydraddoldebau hiliol, megis £0.6 miliwn i gefnogi amrywiaeth o gamau gweithredu i adlewyrchu hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn well yn ein sector

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwylliannol. Bydd hyn yn dechrau helpu i unioni rhai o'r anghydraddoldebau strwythurol yng nghymdeithas Cymru drwy wella cynrychiolaeth ddiwylliannol mewn mannau cyhoeddus ac adeiladu perthynas fwy deallus â'n hanes.

Mae cynrychiolaeth ac arweinyddiaeth yn themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol; dyrannwyd £100,000 arall i wella amrywiaeth a chynhwysiant mewn penodiadau cyhoeddus. Mae'r gyllideb Addysg hefyd yn cynnwys £1 filiwn yn ychwanegol ar gyfer y Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan gynyddu cyfanswm yr arian i £11 miliwn. Bydd hyn yn parhau i gefnogi gwell canlyniadau i blant o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, y gwyddom fod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt.

Mae'n bwysig ystyried, fel y dangoswyd gan y gwaith diweddar y mae fy swyddogion wedi'i wneud i helpu i lunio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y bydd angen i'r broses o greu newidiadau cynaliadwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol strwythurol, gael ei llywio gan y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau cyhoeddus, ar draws Llywodraeth Cymru gyfan, yn hytrach na faint rydym yn ei wario arnynt yn unig.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

**Copi i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**